# CYNGOR CYMUNED MAENTWROG

COFNODION O'R CYFARFOD BLYNYDDOL 07/05/2024
Neuadd y Pentref, Gellilydan

**Yn bresennol;**

Y Cadeirydd: Meredydd Williams

Y Cynghorwyr: Eirian Hoyle, Lynda Massarelli, Eurwyn Jones, Gareth Jones, Heulwen Parry, Elfed Roberts,

Ymddiheuriadau: Dim

Nid oedd aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

Derbyniwyd gofnodion y Cyfarfod Blynyddol diwethaf fel adroddiad cywir.

Ethol Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Cadeirydd: | Eirian Hoyle |
| Is-Gadeirydd: | Heulwen Parry |
| Yr Atomfa: | Meredydd Williams |
| Heddlu: | Eurwyn Jones |
| Pwyllgor y Neuadd: | Lynda Massarelli |
| Wasg: | Eirian Hoyle |
| Cynreichiolydd yr Ysgol: | Gareth Jones |
| Un Llais: | Lynda Massarelli |
| Swyddog Cyllid: | Eurwyn Jones |

Diolchwyd i Meredydd Williams am gadeirio dros y flwyddyn diwethaf.

Diolchwyd i'r cynghorwyr canlynol: Heulwen Parry am ei gwaith gyda'r Dref Werdd, Lynda Massarelli am ei gwaith gyda Neuadd y Pentref, Eurwyn Jones am ofalu am y Fynwent, ac yn olaf diolchwyd i'r clerc.

18.6.24.

CamScanner

# CYNGOR CYMUNED MAENTWROG

## Cofnodion Cyfarfod 07.05.2024

*Presennol: Meredydd Williams, Eirian Hoyle ,Lynda Massarelli, Heulwen Parry, Elfed Roberts, Eurwyn Jones,Gareth Jones*

1. Ymddiheuriadau: Dim

2. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir. HP EJ

2a. Datgan Diddordeb: Dim

<u>3. Materion yn codi o'r cofnodion</u>

3.537_Cae Chwarae Gellilydan- Clerc i gysylltu i weld pryd fydd y gwaith yn cael ei wneud.

3.538 Tir ger Gors Fach / Coed Gors Fach – Elfed Roberts wedi cyfarfod gyda Amanda Murray ac Bryn Hughes, gwybodaeth i'w anfon mlaen i'r clerc.

3.539 National Grid: MW am anfon gwybodaeth ymlaen at Dwynwen Williams (cadw mlaen).

3.540 Parcio Gellilydan: Cysylltu a Chyngor Gwynedd ynghlŷn a pharcio ar y palmant, a gofyn os oes posib gwneud lle parcio, Llwyn Eifion fyny at Coed y Llwyn.

3.541 Bryn Arms – Ail edrych ar y sefyllfa os oes rhywbeth arall yn codi.

3.542 Dref Werdd – Adroddiad a lluniau i'w rhoi ar Wefan y Cyngor, hefyd anfon ymlaen i'r Llafar Bro.

3.543 Neuadd y Pentref - Cyfansoddiad y Neuadd i ddilyn, LM am anfon copi i'r ymddiriedolwyr, (cadw mlaen).

3.544 Plas Tan y Bwlch - clerc i ail-gysylltu a pwysleisio ar pwysicrwydd y lle ac i'w gadw i'r gymuned leol.

3.545– Safleoedd Bysiau Maentwrog –ER am drefnu cyfarfod gyda Rhian Wyn Williams, (cadw mlaen).

<u>4. Materion i'w trafod ar y pryd</u>

4.221 Amseroedd Cyfarfodydd y Cyngor – cyfarfodydd i'w cynnal am 6.30.

4.222 Hyfforddiant – clerc i gysylltu ac Un Llais, prisiau yn afresymol, ac i gael gwybod os oes unrhyw hyfforddiant sydd rhaid cael ei wneud.

4.223 Is-bwyllgor – Bydd rhaid creu is-bwyllgor ar wahân i'r Cyngor, o'r new Gwellianau Gellilydan ac Maentwrog.

4.224 Cysylltu a'r Warden Gŵn i ofyn os posib rhoi arwydd fyny bod cŵn i fod ar dennyn ac i'w rheoli ar y ffyrdd, hefyd anfon llythyr i'r maes carafanau.

4.225 Yswiriant – Clerc wedi edrych ar gwmniau eraill, ond prisiasu yn uwch, penderfynwyd



15-6-24

CamScanner

aros gyda BHIB.

5. Ariannol

5.154 Cyfrif Cadw: £222.84

5.155 Cyfrif Cyfredol: £4065.76

Cytunwyd i dalu y canlynol:

5.156 BHIB £473.14

6. Cynllunio

Dim gwrthwynebiad I'r cais canlynol.

6.68 NP5/73/LB317G – Porth Gwyn, Tan y Bwlch, Maentwrog – diwygio deunyddiau cymeradwy ar gyfer yr adeilad allanol.

7. Gohebiaeth

241 SARPA

242 Cyngor Tref Nefyn

243 Elusen Ambiwlans Cymru

8. Adroddiad o gyfarfodydd eraill

8.25 Estyn wedi gwneud archwiliad o'r dair ysgol, gwybodaeth i ddilyn.

9. Mynwent Dwyryd

9.33 Cyfrif y Fywent: £20329.44

Cytunwyd i dalu y canlynol:

9.34 Martin Kerr £910.00

9.35 Richard Jones £100

9.36 Richard Jones £100

9.37 Biniau – MW ac EJ wedi gwagio y biniau.

9.38 Angen ychwanegu ar anfonebau'r ymgymerwyr bod rhaid i'r seiri maen gysylltu a'r cyngor gyda dyddiad cyn gosod carreg fedd yn y Fynwent.

9.39 Cysylltu a Richard Jones i dorri gwair yno, cytunwyd ar daliad pryd fydd y gwaith wedi wneud.

9.40 ER/EJ am gysylltu a Mr & Mrs Rix am sgwrs anffurfiol.

Dyddiad Cyfarfod Nesaf

18 Mehefin, Neuadd y Pentref am 6.30 o'r gloch

18.6.24



CamScanner